# Trawsnewid Digidol

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gorffennaf 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 61(3) (b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.


## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ffeithiau a ffigyrau allweddol | 7 |
| Ein canfyddiadau | 8 |
| Argymhellion | 24 |
| Atodiadau | 26 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 27 |
| 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn | 30 |
| 3 Ymateb y Rheolwyr | 34 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaethom ystyried sut y mae dull trawsnewid digidol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) o gymorth i wella gwasanaethau. Roedd hyn yn cynnwys ei dull o ddatblygu strategaeth, arweinyddiaeth a sgiliau digidol. Fe wnaethom hefyd ystyried sut y mae'r sefydliad yn rheoli risgiau mewn perthynas â seilwaith digidol, seibergadernid a Deallusrwydd Artiffisial (AI).

## Pam fod hyn yn bwysig

2 Mae technoleg ddigidol yn ffactor galluogi allweddol ar gyfer llawer o'r nodau yn Cymru Iachach. Mae'r cynllun hwnnw'n dweud y bydd technolegau a dulliau digidol newydd yn rhan bwysig o'r drefn system gyfan ar gyfer iechyd a gofal yn y dyfodol.

3 Fodd bynnag, mae cyflawni trawsnewid digidol yn gryn her. Mae'n galw am fuddsoddiad, y seilwaith cywir, ac ymgysylltu â staff a'u hyfforddi. Mae angen i systemau gyfathrebu gyda'i gilydd a rhaid i sefydliadau reoli risgiau bythol gynyddol mewn perthynas â seibergadernid.

4 Nid oes a wnelo trawsnewid digidol â thechnoleg yn unig; mae a wnelo â diwylliant ac arweinyddiaeth. Mae gan fyrddau cyrff y GIG rôl allweddol o ran cymeradwyo a pherchnogi strategaeth ddigidol y sefydliad. Mae ar fyrddau angen sicrwydd hefyd bod trawsnewid digidol yn cael ei reoli'n ddiogel ac yn effeithiol, a bod buddsoddiad yn sicrhau'r manteision bwriadedig.

# Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

5 Mae gan yr Ymddiriedolaeth nodau digidol eglur, a ategir gan arweinyddiaeth a llywodraethu da. Fodd bynnag, nid yw'r Strategaeth Digidol a Data na'r map trywydd yn cynnwys cerrig milltir, manylion adnoddau, na gwybodaeth am atebolrwydd. Mae adroddiadau am gynnydd yn aml yn rhai lefel uchel. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd tracio cynnydd a chanfod achosion o oedi.

6 Mae gan y Bwrdd olwg resymol ar risgiau digidol strategol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i gryfhau'r seilwaith a threfniadau seiberddiogelwch, er bod seiberddiogelwch yn dal i fod yn risg uchel. Mae defnydd yr Ymddiriedolaeth o Ddeallusrwydd Artiffisial mewn cam cynnar o ran ei ddatblygiad ac mae ei sicrwydd ynghylch y maes hwn yn dal i ddatblygu. O ganlyniad, mae adroddiadau ar gyfer pwyllgorau'n canolbwyntio ar risgiau yn hytrach na sut y defnyddir Deallusrwydd Artiffisial yn ymarferol.

7 Mae'r Ymddiriedolaeth yn buddsoddi mewn sgiliau digidol arbenigol ac mae wedi cryfhau ei thimau digidol canolog. Ond nid oes ganddi olwg gyson eto ar sgiliau digidol ar draws yr Ymddiriedolaeth. Mae datblygiad sgiliau ar draws yr Ymddiriedolaeth yn anghyfartal hefyd. Mae hyn yn cyfyngu ar gynllunio'r gweithlu ac fe allai arafu newid digidol.

8 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni ystod o brosiectau digidol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu cynnwys wrth ddatblygu prosiectau digidol. Mae wedi mabwysiadu Safonau Gwasanaethau Digidol Cymru ac mae'n dal i fod yn ymrwymedig i gynhwysiant digidol, ond mae angen iddi ddisgrifio ei dull yn well i roi arweiniad ar gyfer gwaith yn y maes hwn.

9 Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio digidol i gefnogi gwasanaethau, ond mae sicrwydd yn cael ei wanhau gan ansicrwydd ynghylch cyllid, pwysau ar gapasiti, a dibyniaeth ar raglenni cenedlaethol. Mae gwerthuso anghyson yn ei gwneud hi'n anodd dangos sut y mae gwaith digidol yn gwella gwasanaethau a ffyrdd o weithio.

# Yr hyn yr ydym yn ei argymell

10 Rydym wedi llunio saith argymhelliad ar gyfer yr Ymddiriedolaeth. Maent yn canolbwyntio ar y canlynol:

- cryfhau'r Strategaeth Digidol a Data â cherrig milltir cliriach, ac atebolrwydd am gyflawni;
- gwella adroddiadau i'r Bwrdd a phwyllgorau i gysylltu cynnydd yn well â nodau strategol;
- cynyddu gallu digidol y gweithlu trwy asesu a datblygu sgiliau mewn modd cyson;
- cryfhau prosesau cynllunio ac adrodd lle mae cynhwysiant digidol yn y cwestiwn;
- sicrhau bod buddsoddi mewn digidol dros y tymor canolig yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol;
- cryfhau goruchwyliaeth ar raglenni a phartneriaethau digidol cenedlaethol; a
- chyflwyno dull cyson o werthuso datrysiadau digidol.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

Fe wnaeth adolygiad Archwilio Mewnol o Strategaeth Digidol a Data'r Ymddiriedolaeth ym mis Rhagfyr 2024 roi 'sicrwydd rhesymol'.

O weithlu'r Ymddiriedolaeth o oddeutu 2,500 o aelodau o staff, dim ond 17 sydd wedi cwblhau hunanasesiad Fframwaith Gallu Digidol Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Canfu'r adolygiad dan y Fframwaith Asesu Seiber ym mis Medi 2025 fod y rhan fwyaf o feysydd yn cyrraedd y safon. Ond roedd y sgôr ar y cyfan yn nodi bod y safon 'heb gael ei chyrraedd' am nad oedd un maes yn cyrraedd y lefel ofynnol.

Fe wnaeth adolygiad Archwilio Mewnol o drefniadau seiberddiogelwch yr Ymddiriedolaeth ym mis Ebrill 2026 roi sicrwydd sylweddol.

Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi hysbysu am unrhyw ddigwyddiadau dan Reoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018 ers mis Mawrth 2025.

Rhwng 2021-22 a 2024-25, fe wariodd yr Ymddiriedolaeth oddeutu £15.5 miliwn mewn refeniw digidol a £5.4 miliwn ar gyfalaf digidol.

# Ein canfyddiadau

## Strategaeth, cynllunio ac arweinyddiaeth

**Mae gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth, arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu eglur ar gyfer trawsnewid digidol, ond mae'r trefniadau cyfredol yn ei gwneud hi'n anodd tracio cynnydd**

### Strategaeth a chynlluniau digidol

11 Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo Strategaeth Digidol a Data'r Ymddiriedolaeth ar gyfer 2023-26 ym mis Medi 2023. Mae'r strategaeth yn egluro sut y bydd yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio digidol a data i ategu ei chynlluniau hirdymor a gwella gwaith o ddydd i ddydd. Mae'n amcanu at wella sgiliau digidol. Mae hefyd yn amcanu at ddefnyddio data'n fwy effeithiol i wella gwasanaethau, dadansoddi, a phrosesau penderfynu. Mae hefyd yn amlygu'r defnydd o ddigidol a data i wella cydweithio, lleihau dyblygu, a chefnogi gwaith atal a chamau gweithredu cynnar mewn perthynas â risgiau i iechyd y cyhoedd. Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol.

12 Mae'r strategaeth yn seiliedig ar farn yr Ymddiriedolaeth ynglŷn â'i chryfderau a heriau digidol. Mae hyn yn tynnu ar adolygiadau mewnol, trafodaethau gyda staff, mapio systemau, ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol, ac ystod o asesiadau a gynhaliwyd ar draws ei hystâd digidol a data. Mae'r rhain yn cynnwys yr Adolygiad o Bensaernïaeth yn 2023, asesiadau a arweinir gan raglenni o ddyled dechnegol, archwiliadau ac adolygiadau dichonoldeb eraill, ac asesiad INFRAM y Gymdeithas Systemau Gwybodaeth a Rheoli Gofal Iechyd (HIMSS) a gwblhawyd ym mis Mawrth 2026. Mae'r strategaeth yn nodi man cychwyn yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys systemau hŷn, bylchau mewn sgiliau a chapasiti, materion ansawdd data, a threfniadau llywodraethu. Er nad oes un asesiad o aeddfedrwydd digidol sy'n cwmpasu holl ehangder swyddogaethau'r Ymddiriedolaeth o ran iechyd y cyhoedd, mae'r ystod o adolygiadau ac asesiadau'n darparu mewnwelediad i allu digidol a meysydd ar gyfer gwella ar draws y sefydliad.

13 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynhyrchu map trywydd digidol i roi cymorth i gyflawni'r strategaeth. Mae'n cwmpasu gwaith cenedlaethol a lleol ac yn rhestru gwaith arfaethedig ar draws digidol, data, seiberddiogelwch, awtomeiddio, a Deallusrwydd Artiffisial. Nid yw'n dangos yn glir beth yw'r cerrig milltir na'r anghenion o ran adnoddau ar gyfer cyflawni. Nid yw'n dangos ychwaith sut y bydd cynnydd yn cael ei fesur a'i fonitro. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd barnu a yw'r gweithgarwch i gyflawni'r strategaeth ar y trywydd iawn.

## Perchnogaeth y Bwrdd ar drawsnewid digidol

14 Mae'r Bwrdd yn deall ac yn cefnogi'r Strategaeth Digidol a Data. Mae uwch arweinwyr hefyd yn cydnabod pwysigrwydd trawsnewid digidol. Mae materion digidol yn cael eu trafod gan bwyllgorau perthnasol (gweler **paragraff 17**), ac mae aelodau'r Bwrdd wedi cymryd rhan mewn rhywfaint o hyfforddiant. Mae hyn wedi cynnwys gweithio ystwyth a Deallusrwydd Artiffisial, gyda rhagor o hyfforddiant yn yr arfaeth ar seiberddiogelwch ac iechyd digidol. Byddai hyfforddiant mwy rheolaidd yn helpu aelodau'r Bwrdd i ddarparu arweinyddiaeth a her fwy cyson ar faterion digidol.

15 Mae’r Ymddiriedolaeth yn rhan o fforwm Cyfarwyddwyr Digidol Cymru Gyfan. Ond nid yw’n cael ei chynrychioli ar Rwydwaith Digidol Aelodau Annibynnol Cymru Gyfan. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i rannu gwersi, cyfrannu at drafodaethau cenedlaethol, a goleuo gwaith newid digidol yr Ymddiriedolaeth.

## Rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd

16 Mae gan yr Ymddiriedolaeth arweinyddiaeth ddigidol gref. Y Cyfarwyddwr Gweithredol Ymchwil, Data a Digidol sy’n arwain y Strategaeth Digidol a Data. Y Pennaeth Gwasanaethau Digidol sy’n arwain gwaith o ddydd i ddydd. Cefnogir y gwaith hwn gan arweinwyr portffolios digidol ac arweinwyr arbenigol mewn meysydd allweddol, gan gynnwys seiberddiogelwch, systemau cwmwl a gwasanaethau data. Mae gan yr Ymddiriedolaeth hefyd Gyfarwyddwr Anweithredol Digidol a Data. Mae aelodau eraill o’r Bwrdd yn dod â phrofiad perthnasol o ystod o sectorau. Mae hyn o gymorth i wneud penderfyniadau gwybodus a herio’n effeithiol.

17 Mae’r Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd am gynnydd gyda gwaith digidol yr Ymddiriedolaeth trwy adroddiadau rheolaidd y Gyfarwyddiaeth Digidol a Data ac adroddiadau Perfformiad a Mewnwelediad. Mae’r Tîm Gweithredol a’r Pwyllgor Ymchwil a Gwybodaeth hefyd yn cael diweddariadau chwarterol. Mae’r rhain yn cynnwys Adroddiadau Sicrwydd Digidol a Data rheolaidd a diweddariadau ar y strategaeth. Mae’r diweddariadau hyn yn rhoi golwg lefel uchel ar gynnydd yn erbyn y strategaeth a’r map trywydd. Maent hefyd yn cwmpasu rhaglenni pwysig, risgiau allweddol, a gwaith ar Ddeallusrwydd Artiffisial (gweler **paragraff 30**). Mae hyn yn helpu’r Bwrdd i ganolbwyntio ar flaenoriaethau a chynnydd yn hytrach na deilliannau manwl. Mae Cyfarwyddwyr Anweithredol yn darparu her dda ac yn gofyn cwestiynau’n rheolaidd am gynnydd a chyflawni. Oherwydd bod y strategaeth yn un lefel uchel, nid yw wastad yn glir sut y mae cynnydd yn cysylltu’n ôl â’i nodau gwreiddiol.

18 Mae gwasanaethau digidol yn cael eu rheoli'n dda, gyda rolau a chyfrifoldebau eglur. Y Gyfarwyddiaeth Ymchwil, Data a Digidol sy'n arwain gwaith digidol a TGCh. Yr Awdurdod Dylunio Digidol a Data sy'n goruchwylio gweithgarwch cyflawni, yn pennu blaenoriaethau, ac yn gwirio bod gwaith digidol yn cyrraedd y safonau. Mae'r grŵp yn adrodd yn chwarterol wrth y Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Ymchwil a Gwybodaeth. Mae Byrddau Rhaglenni'n goruchwylio rhaglenni unigol ac yn adrodd ar gynnydd, risgiau, costau a phenderfyniadau. Mae'r rhain yn cael eu hystyried gan y Tîm Gweithredol neu'r Bwrdd, gan ddibynnu ar faint y buddsoddiad.

# Adnabod a rheoli risgiau

**Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i leihau risgiau digidol i'r eithaf ac mae'n gwella ei seilwaith a seiberddiogelwch, ond mae seiber yn dal i fod yn risg uchel ac mae angen iddi gryfhau sicrwydd ynghylch effaith a manteision Deallusrwydd Artiffisial**

## Risgiau digidol strategol

19 Mae Cofrestr Risgiau Strategol yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys dwy risg sy'n gysylltiedig â digidol. Mae'r ddwy risg wedi cael sgôr uchel, sef 16 ac 15 yn y drefn honno. Y risgiau yw:

- methu â manteisio'n llawn ar ddigidol a data i wella iechyd y cyhoedd yng Nghymru; a
- cholli gwybodaeth sensitif, a/neu darfu ar wasanaethau o ganlyniad i ddigwyddiadau seiber, ffactorau allanol eraill, gwendidau mewn cadernid digidol, gweithio mewn seilos a diffyg goruchwyliaeth strategol ar allbynnau digidol a data.

20 Ar y cyfan, mae gan y Bwrdd olwg resymol ar risgiau digidol strategol. Mae adroddiadau'n egluro'r rheolaethau sydd yn eu lle, yn tracio cynnydd gyda chamau gweithredu, ac yn cynnwys rhai dangosyddion. Byddai adroddiadau mwy eglur ar effeithiolrwydd rheolaethau a chamau gweithredu'n cryfhau goruchwyliaeth gan y Bwrdd.

## Risgiau i’r seilwaith digidol

21 Mae’r Strategaeth Digidol a Data’n cyfeirio at seilwaith digidol, gan gynnwys systemau, gwasanaethau cwmwl, seiberddiogelwch a thechnoleg hŷn. Er bod y strategaeth yn cydnabod yr angen i wella systemau hŷn, nid yw’r wybodaeth hon yn cael ei dwyn ynghyd mewn un lle. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi datblygu dull strategol ar wahân o ddatblygu seilwaith hefyd. Mae hwn yn nodi cynlluniau ar gyfer seilwaith digidol ac ystadau ac yn egluro sut y bydd buddsoddiadau’n cael eu rheoli.

22 Fe wnaeth adolygiad Archwilio Mewnol ym mis Ebrill 2024 o seilwaith TG yr Ymddiriedolaeth ddarparu sicrwydd rhesymol. Canfu fod systemau TG yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rheoli’n dda gan mwyaf. Mae canolfannau data’n ddiogel, mae systemau’n cael eu monitro, ac mae diweddariadau rheolaidd yn helpu i leihau risg seiber. Serch hynny, canfu’r archwiliad ddefnydd helaeth o offer hŷn a gwendidau o ran rheoli risgiau, rhybuddion ynghylch systemau, a diweddariadau i rwydweithiau.

23 Mae’r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i gael dealltwriaeth well am y risgiau i’w seilwaith digidol ac ystadau. Mae hyn yn cynnwys adolygu systemau, mapio seilwaith TG, a defnyddio offer risg i flaenoriaethu gwaith i ddisodli systemau. Mae hyn wedi arwain at beth cynnydd. Dengys diweddariadau diweddar fod rhai switsys rhwydweithiau craidd wedi cael eu disodli a bod camau i ddisodli waliau tân ar y gweill. Mae’r Ymddiriedolaeth hefyd yn buddsoddi mewn systemau allweddol megis Sgrinio Smotyn Gwaed Babanod Newydd-anedig a Diogelu Iechyd Digidol. Mae hefyd yn creu rolau arbenigol i gefnogi’r gwaith hwn.

## Seibergadernid

24 Fel a nodwyd ym **mharagraff 19**, mae seiberddiogelwch yn risg strategol. Mae’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn adolygu’r risg hon yn rheolaidd ac yn darparu her effeithiol. Mae hyn wedi arwain at gamau gweithredu a wnaeth ostwng y sgôr risg o 20 i 15 ym mis Chwefror 2026. Er gwaethaf hyn, mae’r risg yn dal i fod yn uchel.

25 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cael ei hadolygu sawl gwaith gan Uned Seibergadernid Llywodraeth Cymru rhwng 2022 a 2025 gan ddefnyddio'r Fframwaith Asesu Seiber. Fe wnaeth yr adolygiad diweddaraf, ym mis Medi 2025, ddangos cynnydd da, gyda saith o'r naw maes wedi'u cyflawni ac un wedi'i gyflawni'n rhannol. Ond roedd y sgôr ar y cyfan yn dal i nodi bod y safon 'heb ei chyrraedd' am nad oedd un maes yn cyrraedd y safon ofynnol.

26 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cwrdd yn rheolaidd â'r Uned Seibergadernid i adolygu cynnydd. Mae hefyd wedi datblygu Cynllun Gwella Seiber i ymdrin â materion, gan gynnwys diweddaru waliau tân a disodli systemau hŷn. Rhoddwyd diweddariadau ar gynnydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ym mis Ionawr, mis Mawrth a mis Mai 2025. Roedd adroddiad mis Mai'n dangos bod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud i seiberddiogelwch a bod camau gweithredu yn eu lle i leihau risgiau.

27 Rhoddodd adolygiad Archwilio Mewnol o seiberddiogelwch ym mis Ebrill 2026 sgôr sicrwydd sylweddol i'r Ymddiriedolaeth. Canfu fod risgiau'n cael eu rheoli'n dda, bod diweddariadau'n cael eu cyflwyno'n rheolaidd, a bod aelodau o'r Bwrdd ac uwch arweinwyr yn deall y risgiau. Canfu hefyd fod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni ei Chynllun Gwella Seiber.

28 Mae diweddariadau am seiberddiogelwch yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r rhain yn nodi risgiau allweddol, canfyddiadau archwilio, camau gweithredu sydd ar y gweill a'r camau nesaf. Maent yn canolbwyntio ar risg a gwaith gwella ar y cyfan yn hytrach na digwyddiadau o ddydd i ddydd. Ar adeg ein hadolygiad ni, nid oedd unrhyw ddigwyddiadau wedi cael eu gwneud yn hysbys i Lywodraeth Cymru dan y Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS) yn y 12 mis diwethaf.

29 Mae gan yr Ymddiriedolaeth Dîm Seiberddiogelwch pwrpasol. Mae'r tîm yn gweithio gyda thimau eraill i sicrhau bod seiberddiogelwch yn cael ei ystyried ar adeg gynnar wrth ddylunio a datblygu systemau. Mae hefyd yn darparu hyfforddiant, ymosodiadau seiber a efelychir, ac ymarferion yn seiliedig ar senarios. Mae'r rhain yn helpu staff i ddeall risgiau seiber ac yn gwella ymateb yr Ymddiriedolaeth i ddigwyddiadau seiber.

## Deallusrwydd Artiffisial

30 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y cyfleoedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â Deallusrwydd Artiffisial, ond megis dechrau y mae'r defnydd ohono'n o hyd. Mae'r Bwrdd wedi canolbwyntio ar roi trefniadau llywodraethu eglur yn eu lle, gan gynnwys yr Awdurdod Dylunio Deallusrwydd Artiffisial (AIDA). AIDA sy'n goruchwylio sut y caiff Deallusrwydd Artiffisial ei ddatblygu a'i ddefnyddio ar draws yr Ymddiriedolaeth, yn pennu canllawiau, yn darparu sicrwydd, ac yn helpu i sicrhau bod Deallusrwydd Artiffisial yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel, yn gyfreithlon ac yn foesegol.

31 Mae materion Deallusrwydd Artiffisial yn ymddangos yn rheolaidd yn yr Adroddiadau Sicrwydd Digidol a Data. Ond mae'r rhain yn canolbwyntio ar risgiau moesegol, cyfreithiol a data, yn hytrach na defnydd ehangach o Ddeallusrwydd Artiffisial. Mae rhai offer Deallusrwydd Artiffisial yn cael eu harchwilio neu eu peilota. Ond nid oes rhyw lawer o dystiolaeth eto o fanteision amlwg i wasanaethau na chynhyrchiant.

# Sgiliau digidol

**Er bod yr Ymddiriedolaeth yn buddsoddi mewn sgiliau digidol arbenigol, mae'r diffyg offeryn asesu cyson yn cyfyngu ar gynllunio'r gweithlu ac fe allai arafu trawsnewid digidol ar y cyfan**

## Asesu sgiliau digidol

32 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod pwysigrwydd sgiliau digidol ac mae wedi cymryd rhai camau i ddeall gallu'r gweithlu. Fodd bynnag, ar adeg ein hadolygiad ni, nid oedd ganddi ddull cyson o asesu'r sgiliau a galluoedd digidol ehangach y mae eu hangen i gefnogi trawsnewid digidol ar draws y sefydliad. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud defnydd cyfyngedig o offer megis Fframwaith Gallu Digidol AaGIC, y mae o'r farn ei fod yn rhy gyffredinol ar gyfer ei gwaith iechyd y cyhoedd a rhaglenni digidol mawr. Ers hynny mae'r Ymddiriedolaeth wedi dynodi ei bod yn bwriadu asesu anghenion sgiliau digidol ar ddechrau rhaglenni digidol a data mawr ac adolygu'r rhain trwy gydol y broses o gyflawni rhaglenni. Er bod hyn yn gadarnhaol, mae'n dal yn wir bod angen iddi wneud mwy i gael dealltwriaeth eglur am ofynion o ran gallu digidol i gynllunio anghenion o ran adnoddau, datblygu a hyfforddi'r gweithlu mewn modd effeithiol.

## Datblygu sgiliau digidol

33 Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i ddatblygu sgiliau digidol, fel a nodir yn ei Strategaeth Pobl wedi'i diweddaru. Mae'r rhan fwyaf o ddysgu'n digwydd trwy raglenni neu feysydd unigol megis gallu cwmwl, lle mae staff yn datblygu sgiliau trwy gyflawni a rhannu gwybodaeth. Ond nid oes dull eglur ar draws yr Ymddiriedolaeth gyfan o feithrin sgiliau digidol ar draws y gweithlu ehangach. O ganlyniad, mae angen rhagor o waith i wneud yn siŵr bod gan staff y sgiliau y mae eu hangen i gefnogi trawsnewid digidol.

34 Mae gan yr Ymddiriedolaeth nifer sylweddol o staff yn gweithio fel dadansoddwyr data, gwyddonwyr data, peirianwyr data, ac ymchwilwyr data. Mae wedi buddsoddi mewn timau rhaglen-benodol. Mae hefyd wedi cryfhau ei thimau digidol canolog trwy rolau arbenigol ym maes seiberddiogelwch, data, dylunio sy’n canolbwyntio ar ddefnyddwyr, a thechnolegau cwmwl. Mae gan y timau hyn rôl allweddol o ran gwneud gwaith digidol, cefnogi gwasanaethau, a rheoli risgiau digidol. Ond mae capasiti ar y cyfan yn dal i fod yn gyfyngedig. Mae rhai rolau arbenigol yn wag. O ganlyniad, mae gwaith yn aml yn dibynnu ar flaenoriaethu a chymorth allanol. Mae’r Ymddiriedolaeth hefyd yn dweud ei bod yn dal i brofi heriau o ran paratoi ei gweithlu ehangach ar gyfer moderneiddio’r modd y darperir gwasanaethau. Mae hyn yn dal i fod yn rhwystr posibl i newid digidol.

# Cydweithio a chynnwys

**Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod cynhwysiant digidol ac yn ennyn ymgysylltiad rhai aelodau o staff, ond cyfyngedig yw gweithgarwch i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, ac mae diffyg cynllun eglur yn cyfyngu ar gynnydd o ran cyflawni newid digidol cynhwysol**

## Cynnwys staff a defnyddwyr gwasanaethau

35 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys staff a defnyddwyr gwasanaethau wrth ddylunio a phrofi ei systemau digidol. Mae'r Tîm Dylunio sy'n Canolbwyntio ar Ddefnyddwyr yn cefnogi ymgysylltiad trwy ymchwil defnyddwyr a dylunio gwasanaethau gyda defnyddwyr, ac mae wedi datblygu dulliau megis personâu defnyddwyr, gweithgareddau ymchwil a phrofi cynnar gyda defnyddwyr a mecanweithiau rhannu gwybodaeth i gefnogi dylunio sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr.

## Lleihau allgau digidol

36 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod pwysigrwydd cynhwysiant digidol, fel a adlewyrchir yn ei Strategaeth Digidol a Data. Mae'r strategaeth yn amlygu tegwch, mynediad a lleihau anghydraddoldebau. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ystyried cynhwysiant digidol mewn nifer o brosiectau. Er enghraifft, mae wedi:

- cael ei dynodi'n un o Ganolfannau Cydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn Ewrop ar gyfer tegwch iechyd digidol;
- gwneud gwaith arolygu ac ymchwil ar degwch digidol yn ystod y pandemig;
- profi hygyrchedd ei gwefan; a
- dechrau gwaith i ddeall rhwystrau a wynebir gan bobl ag anableddau dysgu.

37 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi mabwysiadu Safonau Gwasanaethau Digidol Cymru, sy'n ei helpu i wreiddio egwyddorion cynhwysiant digidol a safonau hygyrchedd ar draws ei waith trawsnewid digidol. Y Cyfarwyddwr Digidol sydd â chyfrifoldeb arweiniol am gynhwysiant digidol. Er gwaethaf hyn, mae angen i'r Ymddiriedolaeth ddisgrifio'n well beth yw ei dull ar y cyfan lle mae cynhwysiant digidol yn y cwestiwn, gan gynnwys ei hamcanion, camau gweithredu sy'n flaenoriaeth, mesurau o lwyddiant, a sut y bydd yn asesu a yw ei gweithgareddau'n lleihau allgau digidol yn ymarferol.

38 Nid yw Adroddiadau Sicrwydd Digidol a Data'n adrodd yn rheolaidd ar gamau gweithredu, cynnydd na deilliannau lle mae cynhwysiant digidol yn y cwestiwn. O ganlyniad, mae'n anodd asesu effaith dull yr Ymddiriedolaeth na chael sicrwydd yr ymdrinnir yn gyson ac yn systematig ag allgau digidol ar draws y sefydliad.

# Defnyddio datblygiadau digidol i roi cymorth i drawsnewid gwasanaethau

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio digidol i gefnogi gwasanaethau, ond mae ansicrwydd ynghylch cyllid, capasiti cyfyngedig, dibyniaethau cenedlaethol, a gwerthuso anghyson yn gwanhau sicrwydd ynghylch cyflawni trawsnewid digidol

### Buddsoddi mewn trawsnewid digidol

39 Gwasanaethau digidol o ddydd i ddydd, staff, a nifer fach o brosiectau sy'n flaenoriaeth y mae cyllid digidol cyfredol yr Ymddiriedolaeth yn eu cefnogi'n bennaf. Mae peth cyllid yn ei le hefyd ar gyfer prosiectau penodol, megis y System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS), systemau digidol a ddefnyddir mewn gwasanaethau sgrinio, rhannau o raglen y wefan, a gwaith seiberddiogelwch. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu cynlluniau amlflwyddyn trwy ei Chynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI), a ategir gan achosion busnes a threfniadau llywodraethu rhaglenni. Fodd bynnag, mae cyllid yn cael ei gytuno fesul blwyddyn neu brosiect unigol fel arfer. O ganlyniad, nid yw'n glir a oes cyllid yn ei le i gyflawni'r holl fentrau a nodir yn y Strategaeth Digidol a Data. Felly mae nifer o gynlluniau'n dal i fod yn ddibynnol ar benderfyniadau cyllid a chymorth cenedlaethol yn y dyfodol.

40 Dengys **Arddangosion 1** a **2** fod gwariant yr Ymddiriedolaeth ar ddigidol wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Fe gododd gwariant refeniw o £2.9 miliwn yn 2021-22 i £5.2 miliwn yn 2024-25. Mae hyn yn adlewyrchu costau parhaus cynyddol rhedeg gwasanaethau digidol. Mae gwariant cyfalaf wedi amrywio o un flwyddyn i'r llall ers 2021-22, gan amrywio o £0.7 miliwn i £1.8 miliwn. Mae gwariant cyfalaf arfaethedig yn uwch yn y tymor byr ond yn gostwng mewn blynyddoedd diweddarach. Mae gwariant refeniw arfaethedig yn cynyddu ychydig, o un flwyddyn i'r llall.

41 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi codi pryderon ynghylch y gallu i gyflawni ei Chynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) 2025-28. Y rheswm dros hyn yw nad yw cyllid y tu hwnt i gyfnod y cynllun cyfredol wedi cael ei gadarnhau. O ganlyniad, nid yw'n glir a fydd gan yr Ymddiriedolaeth ddigon o gyllid hirdymor i ddisodli systemau hŷn a chyflawni'r holl welliannau digidol arfaethedig.

### Arddangosyn 1: Buddsoddiad cyfalaf a refeniw blynyddol mewn digidol (rhwng 2021-22 a 2024-25)

| Blwyddyn ariannol | Cyfalaf (£m) | Refeniw (£m) |
|---|---:|---:|
| 2021-22 | 1.2 | 2.9 |
| 2022-23 | 0.7 | 3.5 |
| 2023-24 | 1.8 | 3.9 |
| 2024-25 | 1.7 | 5.2 |

Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth

### Arddangosyn 2: Lefelau arfaethedig y buddsoddiad cyfalaf a refeniw mewn digidol (rhwng 2025-26 a 2027-28)

| Blwyddyn ariannol | Cyfalaf (£m) | Refeniw (£m) |
|---|---:|---:|
| 2025-26 | 3.6 | 5.2 |
| 2026-27 | 5.8 | 5.4 |
| 2027-28 | 4.0 | 5.5 |
| 2028-29 | 1.4 | 5.7 |

Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth

## Prosiectau digidol lleol a rhanbarthol

42 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio ar nifer o brosiectau digidol lleol a rhanbarthol i wella gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys systemau i gefnogi gwasanaethau sgrinio, megis sgrinio'r ysgyfaint a babanod newydd-anedig; diweddariadau i wefan yr Ymddiriedolaeth i wella hygyrchedd a chydymffurfiaeth; a gwelliannau i seiberddiogelwch (gweler **paragraff 39**). Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn archwilio ac yn peilota defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial ac offer awtomeiddio (gweler **paragraff 31**).

43 Mae diweddariadau i'r Pwyllgor Ymchwil a Gwybodaeth yn dangos bod gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau i gyflawni'r gwaith hwn. Maent hefyd yn dangos yr adroddir ar brosiectau trwy drefniadau llywodraethu y cytunwyd arnynt. Mae'r Adroddiadau Sicrwydd Digidol a Data'n amlygu bod capasiti staff dan bwysau. O ganlyniad, mae rhai rhaglenni'n dibynnu ar gymorth dros dro neu interim. Mae hyn wedi achosi oedi a cherrig milltir diwygiedig mewn prosiectau megis trawsnewid ystâd y we.

## Mabwysiadu systemau digidol cenedlaethol

44 Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n mabwysiadu datrysiadau digidol cenedlaethol fel rhan o'r dull 'Unwaith i Gymru'. Mae'n gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC), Llywodraeth Cymru, a chyrff eraill GIG Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhan o brosiectau mawr megis LIMS, Caffael System Wybodeg ar gyfer Radioleg (RISP), a System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru (CaNISC).

45 Mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi nad yw rolau a chyfrifoldebau wastad yn eglur rhyngddi hi ei hun, IGDC a Llywodraeth Cymru. Dengys Adroddiadau Sicrwydd Digidol a Data fod oedi gyda systemau cenedlaethol yn parhau ac yn sylweddol. Mae'r oedi yma'n ei gwneud hi'n anodd rheoli risgiau a chanlyn arni â newid digidol. Mae llawer o'r oedi y tu hwnt i reolaeth yr Ymddiriedolaeth ac yn dibynnu ar bartneriaid cenedlaethol a chapasiti ar draws y system gyfan. O ganlyniad, mae cynnydd yr Ymddiriedolaeth o ran moderneiddio gwasanaethau digidol yn dibynnu'n gryf ar gyflymder cyflawni cenedlaethol.

46 Mae Adroddiadau Sicrwydd Digidol a Data'n darparu trosolwg resymol ar gynnydd a risgiau ar gyfer rhaglenni digidol cenedlaethol. Ond nid ydynt wastad yn cynnwys llinellau amser eglur na chynlluniau manwl ar gyfer ymdrin â heriau. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd gwybod pryd y bydd prosiectau'n gorffen. Mae'r adroddiadau'n cyfeirio at weithio mewn partneriaeth ar raglenni unigol ond nid ydynt yn rhoi rhyw lawer o fewnwelediad i ba mor dda y mae'r trefniadau hyn yn gweithredu ar y cyfan. O ganlyniad, mae'n anodd i'r Bwrdd asesu a yw materion partneriaeth yn achosi oedi gyda chynnydd neu a yw'r cydweithio'n ddigon cryf i gefnogi rhaglenni mawr.

## Gwerthuso datrysiadau digidol

47 Mae gan yr Ymddiriedolaeth rai ffyrdd o adolygu pa mor dda y mae ei systemau digidol yn gweithio, ond nid yw'r rhain yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws y sefydliad. Mae rhai prosiectau wedi'u bwriadu i fod yn hawdd i'w defnyddio, yn hygyrch, ac yn gyson â Safonau Gwasanaethau Digidol Cymru. Ceir enghreifftiau da, megis gwelliannau i'r wefan a systemau sy'n cefnogi gwasanaethau sgrinio. Ond nid yw'r dull hwn yn cael ei gymhwyso i'r holl waith digidol. Nid yw adborth gan ddefnyddwyr a gwiriadau ar ôl i systemau fynd yn fyw yn digwydd bob amser, ac ni ddefnyddir mesurau o lwyddiant ar gyfer pob prosiect. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd gwybod a yw systemau'n gwella effeithlonrwydd neu gynhyrchiant. O ganlyniad, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ffordd eglur o asesu ei datrysiadau digidol.

# Argymhellion

48 Mae'r tabl canlynol yn manylu ar yr argymhellion a gododd o'n gwaith.

| | |
|---|---|
| **A1** | Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei Strategaeth Digidol a Data a'i map trywydd trwy bennu cerrig milltir eglur; adnabod anghenion o ran adnoddau; ac aseinio swyddogion atebol ar gyfer pob blaenoriaeth. **(Paragraffau 11 i 13)** |
| **A2** | Dylai'r Ymddiriedolaeth wella adroddiadau ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau fel bod diweddariadau'n dangos yn glir sut y mae cynnydd gyda rhaglenni'n ategu nodau'r Strategaeth Digidol a Data. **(Paragraff 17)** |
| **A3** | Dylai'r Ymddiriedolaeth ddefnyddio dull mwy strwythuredig o ddeall a datblygu gallu ei gweithlu digidol trwy:<br>**3.1** datblygu dull cyson o ddeall y sgiliau digidol y mae eu hangen arni i wireddu ei huchelgeisiau digidol ac asesu'r rhain trwy raglenni digidol a data mawr **(paragraff 32)**; a<br>**3.2** cyflwyno rhaglen hyfforddi sy'n cynnig dysgu rôl-benodol, wedi'i dargedu, gan gynnwys sgiliau data, sgiliau digidol, a gallu ar gyfer newid **(paragraff 33)**. |

**A4** Dylai'r Ymddiriedolaeth wella ei dull o ymdrin â chynhwysiant digidol trwy:

**4.1** creu cynllun cynhwysiant digidol sy'n nodi'n well beth yw ei blaenoriaethau, ei chamau gweithredu, ei mesurau, a sut y bydd risgiau o ran allgau digidol yn cael eu rheoli ar draws yr holl feysydd gwasanaeth **(paragraff 37)**; a

**4.2** gwella adroddiadau fel bod cynnydd gyda chynhwysiant ac ymgysylltu digidol yn eglur, gyda diweddariadau rheolaidd ar gamau gweithredu, deilliannau ac effaith **(paragraff 38)**.

**A5** Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei chynlluniau tymor canolig ar gyfer buddsoddi mewn digidol trwy gysylltu penderfyniadau cyllido'n glir â blaenoriaethau yn y Strategaeth Digidol a Data. (**Paragraff 39**)

**A6** Dylai'r Ymddiriedolaeth wella adroddiadau ar raglenni digidol cenedlaethol trwy:

**6.1** darparu llinellau amser mwy eglur, dibyniaethau allweddol, ac effaith oedi ar drawsnewid digidol ehangach yn yr Ymddiriedolaeth **(paragraff 46)**; a

**6.2** rhoi mewnwelediad mwy eglur i ba mor dda y mae trefniadau partneriaeth yn gweithio a ble y gall cydweithio fod yn arafu'r cynnydd **(paragraff 46)**.

**A7** Dylai'r Ymddiriedolaeth fabwysiadu dull cyson, sefydliad cyfan o werthuso datrysiadau digidol. Dylai hyn gynnwys adborth defnyddwyr, adolygiadau ar ôl rhoi datrysiadau ar waith, a mesurau eglur o lwyddiant. **(Paragraff 47)**

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Nod yr archwiliad hwn yw canfod a yw'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio technoleg ddigidol i roi cymorth i foderneiddio gwasanaethau ac ategu eu heffeithlonrwydd. Roedd hyn yn cynnwys y dull o ddatblygu strategaeth, arweinyddiaeth a sgiliau ar gyfer trawsnewid digidol, a sut y mae risgiau o ran y seilwaith digidol, seibergadernid a Deallusrwydd Artiffisial yn cael eu rheoli.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Fe ymdriniodd ein harchwiliad â'r cwestiynau canlynol:

- A oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull trawsnewid digidol a arweinir yn dda ac y darperir adnoddau priodol ar ei gyfer?
- A yw'r Ymddiriedolaeth yn datblygu sgiliau, capasiti, a gallu digidol ei gweithlu?
- A oes gan yr Ymddiriedolaeth gynllun eglur ar gyfer rheoli ei threfniadau seibergadernid a'i seilwaith digidol a sut y bydd angen iddynt newid i ategu ei huchelgeisiau trawsnewid digidol?
- A yw'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu'n effeithiol â staff, partneriaid, cleifion / defnyddwyr gwasanaethau i wireddu ei huchelgeisiau trawsnewid digidol a lleihau i'r eithaf risgiau o allgau digidol?
- A yw'r Ymddiriedolaeth wrthi'n frwd yn defnyddio technoleg ddigidol a datrysiadau data newydd i wella hygyrchedd, ansawdd, effeithlonrwydd a chynhyrchiant ei gwasanaethau?

## Meini Prawf

Cafodd ein cwestiynau archwilio eu siapio gan:

- fewnbwn cyfeirio allanol gan Lywodraeth Cymru, Cyfarwyddwyr Digidol y GIG Cymru Gyfan, ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru;
- strategaethau a chynlluniau perthnasol gan Lywodraeth Cymru;
- adroddiadau adolygu perthnasol ar Drawsnewid Digidol yn y GIG a gwblhawyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a Phwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Tŷ'r Cyffredin;
- Papur polisi Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y GIG yn Lloegr: A plan for digital health and social care; a hefyd
- Fframwaith Cyfarwyddiaeth Drawsnewid y GIG yn Lloegr: What good looks like.

# Dulliau

Fe ofynnom ni i'r Ymddiriedolaeth:

- Gwblhau hunanasesiad i'n helpu i ddeall sut y mae'r sefydliad yn cyflawni trawsnewid digidol.
- Rhoi ffeithiau a ffigyrau i ni am ei gwariant ar dechnoleg ddigidol, sgiliau digidol ei staff, ei seibergadernid, a sut y mae'n cynnwys pobl mewn trawsnewid digidol.
- Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:
  - Papurau a chofnodion y Bwrdd a phwyllgorau.
  - Dogfennau llywodraethu allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys: Adroddiad Asesu Seiberddiogelwch yr Uned Seibergadernid (2024), Cynllun Gwaith y Bwrdd 2025-26, Cynllun Gwaith y Pwyllgor Ymchwil a Gwybodaeth 2025-26, a Chylchoedd Gorchwyl Pwyllgorau.
  - Strategaethau a chynlluniau allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys: Strategaeth Digidol a Data, Strategaeth Hirdymor 2023-35, CTCI 2025-28, Blaenoriaethau Digidol ar gyfer 2026-27, Adroddiad Blynyddol 2025-26, Dull Strategol o Ddatblygu Seilwaith yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, Strategaeth Pobl 2025-35.

- Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Strategol.
- Adroddiadau a baratowyd gan yr Ymddiriedolaeth a chyda chyrff allanol perthnasol eraill. Roedd y rhain yn cynnwys: 'Digital technology and health inequalities: a scoping review' (ar y cyd â Chronfa'r Brenin); 'Population health in a digital age: The use of digital technology to support and monitor health in Wales' (ar y cyd gyda Phrifysgol Bangor).

Fe wnaethom gyfweld â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Is-Gadeirydd
- Cyfarwyddwr Anweithredol, Iechyd y Cyhoedd
- Cyfarwyddwr Anweithredol, Digidol a Data
- Pennaeth Ymchwil a Gwerthuso
- Cyfarwyddwr Ymchwil, Data a Digidol

Fe wnaethom arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y Pwyllgor Ymchwil a Gwybodaeth.

# 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Allgau Digidol** | Pan fo pobl yn methu â chael mynediad at wasanaethau digidol neu eu defnyddio'n effeithiol (er enghraifft, oherwydd diffyg mynediad at ddyfeisiau neu'r rhyngrwyd, sgiliau digidol isel, anabledd, neu rwystrau eraill), sy'n gallu cyfyngu ar fynediad at wasanaethau a gwaethygu anghydraddoldebau. |
| **Asesiad o Aeddfedrwydd Digidol** | Adolygiad strwythuredig gan ddefnyddio fframwaith neu fodel cydnabyddedig i fesur sut y mae gallu digidol sefydliad yn cael ei ddatblygu ar draws meysydd megis arweinyddiaeth a llywodraethu, sgiliau'r gweithlu, data, technoleg, seibergadernid, a darparu gwasanaethau yw asesiad o aeddfedrwydd digidol. Mae'n darparu llinell sylfaen ac yn helpu i dracio cynnydd dros amser a blaenoriaethu camau gwella. |
| **Caffael System Wybodeg ar gyfer Radioleg (RISP)** | Rhaglen ddigidol genedlaethol sydd wedi'i bwriadu i ddisodli a moderneiddio'r holl systemau gwybodeg craidd ar gyfer radioleg ar draws pob bwrdd iechyd yw RISP. |
| **Cofrestr Risgiau Strategol** | Offeryn strwythuredig, strategol a ddefnyddir gan fyrddau i fonitro risgiau sy'n fygythiad i gyflawni amcanion corfforaethol yw Cofrestr Risgiau Strategol yn y GIG. |
| **Cynhwysiant Digidol** | Sicrhau bod gwasanaethau digidol a gwybodaeth ddigidol yn hygyrch ac yn ddefnyddiadwy i bawb, gan gynnwys pobl â gwahanol anghenion ac |

| Term | Disgrifiad |
| --- | --- |
| | amgylchiadau, fel nad yw defnyddio digidol yn cynyddu anghydraddoldebau iechyd. |
| **Deallusrwydd Artiffisial (AI)** | Ystyr Deallusrwydd Artiffisial yw gallu peiriannau, systemau cyfrifiadurol neu robotiaid i ddynwared deallusrwydd, dysg, a phrosesau penderfynu dynol i gyflawni tasgau penodol. |
| **Dylunio sy’n canolbwyntio ar ddefnyddwyr** | Dull o ddylunio a gwella gwasanaethau digidol sy’n cynnwys defnyddwyr (e.e. staff, cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaethau) trwy gydol y broses i ddeall eu hanghenion, profi syniadau a sicrhau bod systemau’n ddefnyddiadwy, yn hygyrch ac yn effeithiol. |
| **Fframwaith Asesu Seiber (CAF)** | Offeryn gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) sydd wedi’i fwriadu i helpu sefydliadau, yn enwedig y rhai mewn seilwaith critigol fel ynni, iechyd a thrafnidiaeth, i asesu eu seibergadernid yw CAF. |
| **Fframwaith Gallu Digidol AaGIC** | Model cenedlaethol sy’n amlinellu’r sgiliau, ymddygiadau a hyder digidol y mae ar staff iechyd a gofal eu hangen, a’r rheiny wedi’u trefnu’n chwe maes gallu gydag offeryn hunanasesu ar gyfer datblygu. |
| **Map Trywydd Digidol** | Y Map Trywydd Digidol yw cynllun cyflawni’r Ymddiriedolaeth ar gyfer rhoi ei Strategaeth Digidol a Data ar waith, sy’n rhestru gweithgareddau arfaethedig a’u graddfeydd amser ar draws digidol, data, seiberddiogelwch ac awtomeiddio. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS) 2018** | Nod Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018 yw gwella seiberddiogelwch a seibergadernid systemau sy’n darparu gwasanaethau hanfodol. |
| **Safonau Gwasanaethau Digidol Cymru** | Set o egwyddorion a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cymru i helpu cyrff cyhoeddus i ddylunio a darparu gwasanaethau digidol sy’n canolbwyntio ar ddefnyddwyr, sy’n hygyrch, yn ddwyieithog ac yn gynhwysol yw Safonau Gwasanaethau Digidol Cymru. Maent yn diffinio sut y dylai gwasanaethau digidol ‘da’ edrych ar draws sector cyhoeddus Cymru. |
| **Strategaeth Digidol a Data** | Mae’r Strategaeth Digidol a Data’n nodi sut y bydd y sefydliad yn defnyddio digidol a data i ategu ei gynlluniau hirdymor. |
| **System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru (CaNISC)** | System gwybodaeth / tracio canser ar lefel genedlaethol yn GIG Cymru sydd wedi bod yn destun rhaglen o dynnu’n ôl a disodli, gydag ystyriaethau cysylltiedig o ran cyflawni a risg seiber, yw CaNISC. |
| **System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS)** | System ddigidol unedig sydd wedi’i bwriadu i reoli data a llifoedd waith samplau patholeg ar draws yr holl fyrddau iechyd ac ysbytai yw’r LIMS yn GIG Cymru. |
| **System Sgrinio Smotyn Gwaed Babanod Newydd-anedig Cymru** | System ddigidol a letyir gan yr Ymddiriedolaeth sy’n cefnogi gwasanaethau sgrinio babanod newydd-anedig trwy gofnodi a rheoli gwybodaeth a chanlyniadau sgrinio. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Uned Seibergadernid (CRU)** | Tîm annibynnol sy’n gyfrifol am roi’r Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth ar waith a’u monitro i hybu seiberddiogelwch ar draws sector iechyd Cymru yw Uned Seibergadernid GIG Cymru, a sefydlwyd yn 2021 ac a letyir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC). |
| **Unwaith i Gymru** | Dull cenedlaethol yn GIG Cymru lle mae system, proses neu safon ddigidol yn cael ei dylunio, ei chaffael a’i rhoi ar waith unwaith ar lefel genedlaethol, yn hytrach na bod pob Bwrdd Iechyd yn creu ei fersiwn ei hun. |

# 3 Ymateb y Rheolwyr

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei Strategaeth Digidol a Data a'i map trywydd trwy bennu cerrig milltir eglur; adnabod anghenion o ran adnoddau; ac aseinio swyddogion atebol ar gyfer pob blaenoriaeth. **(Paragraffau 11 i 13)** | Ers cynnal yr adolygiad, fe wnaed cynnydd sylweddol i gryfhau trefniadau cyflawni strategol trwy benodi Arweinwyr Portffolio pwrpasol, datblygu cynllun cyflawni ar lefel portffolios sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Digidol a Data, a rhoi trefniadau llywodraethu ac adrodd gwell ar waith ar gyfer rhaglenni.<br>Mae cerrig milltir, adnoddau, risgiau a dibyniaethau rhaglenni'n cael eu monitro bellach trwy fecanweithiau adrodd misol.<br>Byddwn yn parhau i ddatblygu'r rhain a'r adroddiadau ar gyfer y bwrdd newid a'r Pwyllgor Ymchwil a Gwybodaeth i wreiddio set gryfach o adroddiadau'n llawn.<br>Y Cyfarwyddwr Gweithredol Ymchwil, Data a Digidol fydd y Swyddog Atebol ar gyfer yr holl flaenoriaethau strategol yn y Strategaeth Digidol a Data | Mawrth 2027 | Arweinydd y Portffolio Ymchwil, Data a Digidol |
| A2 | Dylai'r Ymddiriedolaeth wella adroddiadau ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau fel bod diweddariadau'n dangos yn glir sut y mae cynnydd gyda rhaglenni'n | Mae trefniadau adrodd wedi cael eu cryfhau trwy gyflwyno templedi adrodd diwygiedig ar gyfer rhaglenni a phorffolios sy'n sicrhau bod gweithgarwch cyflawni rhaglenni'n cyd-fynd yn glir ag amcanion strategol y Strategaeth Digidol a Data. Mae adroddiadau bellach yn darparu golwg ar gyrraedd cerrig milltir, | Mawrth 2027 | Arweinydd y Portffolio Ymchwil, Data a Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | ategu nodau'r Strategaeth Digidol a Data. **(Paragraff 17)** | gweithgarwch arfaethedig, risgiau, materion a chanlyniadau yn y dyfodol.<br>Rhoddwyd y trefniadau hyn ar waith yn ystod 2025 a byddant yn parhau i gael eu hadolygu i sicrhau bod aelodau'r Bwrdd a phwyllgorau'n cael sicrwydd eglur ynghylch cynnydd strategol a gwireddu manteision. | | |
| A3 | Dylai'r Ymddiriedolaeth ddefnyddio dull mwy strwythuredig o ddeall a datblygu gallu ei gweithlu digidol trwy: | | | |
| A3.1 | datblygu dull cyson o ddeall y sgiliau digidol y mae eu hangen arni i wireddu ei huchelgeisiau digidol ac asesu'r rhain trwy raglenni digidol a data mawr **(paragraff 32)**. | Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cydnabod pwysigrwydd deall gallu digidol y gweithlu a chynnal llinell sylfaen briodol o sgiliau digidol. Er bod Fframwaith Gallu Digidol AaGIC yn darparu asesiad lefel uchel defnyddiol o hyder digidol, nid yw wedi'i deilwra ddigon i'r sgiliau arbenigol sy'n ofynnol i gyflawni rhaglenni trawsnewid digidol a data mawr. Felly bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n mabwysiadu dull seiliedig-ar-raglenni, gan gynnal asesiadau o allu ar ddechrau rhaglenni mawr a phob hyn a hyn trwy gydol y broses o'u cyflawni. Bydd hyn yn galluogi'r sefydliad i gadarnhau llinellau sylfaen o ran y gweithlu, adnabod bylchau mewn gallu a monitro gwelliannau yn erbyn gofynion rhaglenni. Hefyd, bydd ystyriaeth yn cael ei | Yn cael ei wreiddio yn yr holl raglenni cyfredol a newydd erbyn mis Rhagfyr 2026 | Arweinydd y Portffolio Ymchwil, Data a Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | rhoi i ddatblygu dull asesu lleol cymesur i roi cymorth i gynllunio'r gweithlu ar draws gwasanaethau digidol a data. | | |
| A3.2 | cyflwyno rhaglen hyfforddi sy'n cynnig dysgu rôl-benodol, wedi'i dargedu, gan gynnwys sgiliau data, sgiliau digidol, a gallu ar gyfer newid **(paragraff 33)**. | Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru eisoes wedi gwreiddio asesiadau o sgiliau a gallu mewn nifer o raglenni mawr, gan gynnwys datblygiad y Cynllun Gallu Cwmwl, sy'n adnabod bylchau penodol mewn gallu ac yn goleuo gweithgareddau datblygu wedi'u targedu.<br>Gan adeiladu ar y dull hwn, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cryfhau trefniadau dysgu a datblygu rôl-benodol ymhellach trwy sicrhau bod cynlluniau hyfforddi'n cyd-fynd ag anghenion o ran gallu a adnabuwyd, gan sicrhau bod gan staff fynediad at ddatblygiad sgiliau digidol, data, arwain a rheoli newid priodol i roi cymorth i gyflawni rhaglenni a darparu gwasanaethau digidol strategol. | Gorffennaf 2027 | Pennaeth Profiad Digidol / Pennaeth Gwyddor Data |
| A4 | Dylai'r Ymddiriedolaeth wella ei dull o ymdrin â chynhwysiant digidol trwy: | | | |
| A4.1 | creu cynllun cynhwysiant digidol sy'n nodi'n well beth yw ei blaenoriaethau, ei chamau gweithredu, ei mesurau, a sut y | Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n nodi'n glir beth yw ei ddull lle mae cynhwysiant digidol yn y cwestiwn a hynny mewn un ddogfen sydd wedi'i chyhoeddi ar ei wefan. | Mawrth 2027 | Pennaeth Gwasanaethau a Phrofiad Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | bydd risgiau o ran allgau digidol yn cael eu rheoli ar draws yr holl feysydd gwasanaeth **(paragraff 37)**. | | | |
| A4.3 | gwella adroddiadau fel bod cynnydd gyda chynhwysiant ac ymgysylltu digidol yn eglur, gyda diweddariadau rheolaidd ar gamau gweithredu, deilliannau ac effaith **(paragraff 38)**. | Cytuno – bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n gwella sut y mae'n adrodd ar gyflawni yn ein diweddariadau rheolaidd ac yn ailadrodd hyn. Unwaith y byddwn wedi disgrifio'n glir beth yw ein dull lle mae cynhwysiant yn y cwestiwn, byddwn yn diwygio'r adroddiadau i adlewyrchu hyn. | Gorffennaf 2027 | Arweinydd y Portffolio Ymchwil, Data a Digidol, Pennaeth Profiad Digidol |
| A5 | Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei chynlluniau tymor canolig ar gyfer buddsoddi mewn digidol trwy gysylltu penderfyniadau cyllido'n glir â blaenoriaethau yn y Strategaeth Digidol a Data. **(Paragraff 39)** | Fel rhan o broses ein CTCI, mae'r Ymddiriedolaeth yn creu blaengynllun o raglenni digidol y bydd gofyn buddsoddi ynddynt dros y 3 blynedd nesaf. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys hyn yn fwy penodol yn ei CTCI fel adran ar wahân.<br>Er bod trefniadau cyllido blynyddol a bennir gan Lywodraeth Cymru'n creu heriau ar gyfer cynllunio ariannol tymor hwy, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n parhau i gryfhau'r aliniad rhwng blaenoriaethau strategol, mapiau trywydd seilwaith, achosion busnes a phenderfyniadau buddsoddi i gefnogi trawsnewid digidol cynaliadwy. | Mawrth 2027 | Cyfarwyddwr Gweithredol Ymchwil, Data a Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A6 | Dylai'r Ymddiriedolaeth wella adroddiadau ar raglenni digidol cenedlaethol trwy: | | | |
| A6.1 | darparu llinellau amser mwy eglur, dibyniaethau allweddol, ac effaith oedi ar drawsnewid digidol ehangach yn yr Ymddiriedolaeth **(paragraff 46)**. | Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cydnabod pwysigrwydd darparu golwg glir ar linellau amser rhaglenni, eu dibyniaethau a'r effaith y gallai risgiau i gyflawni ei chael ar amcanion trawsnewid sefydliadol ehangach. Fe wnaed gwelliannau sylweddol ers yr adolygiad trwy gyflwyno trefniadau cynllunio rhaglenni a phortffolios sy'n adnabod ac yn monitro cerrig milltir, dibyniaethau, risgiau a materion yn ffurfiol ar draws rhaglenni digidol a data. Mae adroddiadau misol ar y prif bwyntiau i Fyrddau Rhaglenni'n darparu tryloywder ynghylch cynnydd o ran cyflawni, dibyniaethau allweddol a risgiau sy'n dod i'r amlwg, gyda materion strategol yn cael eu huwchgyfeirio trwy lwybrau llywodraethu sefydledig i sicrhau bod effeithiau sefydliadol ehangach yn cael eu deall a'u rheoli.<br>Yn y dyfodol, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n parhau i gryfhau adroddiadau ar lefel portffolios trwy ddarparu mwy o olwg ar ryngddibyniaethau rhwng rhaglenni ac effaith bosibl oedi ar ddeilliannau strategol, gan ei gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau gwybodus a rheoli risg yn rhagweithiol. | Gorffennaf 2027 | Arweinydd y Portffolio Ymchwil, Data a Digidol |
| A6.2 | rhoi mewnwelediad mwy eglur i ba mor dda y mae trefniadau | Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cydnabod bod gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yn hollbwysig i gyflawni trawsnewid | Gorffennaf 2027 | Arweinydd y Portffolio Ymchwil, |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | partneriaeth yn gweithio a ble y gall cydweithio fod yn arafu'r cynnydd **(paragraff 46)**. | digidol yn llwyddiannus. Mae trefniadau llywodraethu rhaglenni presennol yn cynnwys mapio rhanddeiliaid, cynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu, strwythurau llywodraethu diffiniedig a phrosesau rheoli risg sy'n adnabod ac yn rheoli risgiau i gyflawni sy'n gysylltiedig â sefydliadau partner.<br>Er bod y trefniadau hyn wedi'u sefydlu mewn rhaglenni, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cydnabod bod cyfle i ddarparu mwy o olwg sefydliadol ar effeithiolrwydd partneriaethau, yn enwedig lle gall dibyniaethau ar sefydliadau allanol ddylanwadu ar gyflawni rhaglenni. Felly bydd trefniadau adrodd yn cael eu gwella i ddarparu sylwebaeth fwy eglur am effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth, cynnydd yn erbyn amcanion cyffredin, y modd y rheolir dibyniaethau ar draws sefydliadau ac unrhyw effeithiau sy'n deillio o oedi neu gyfyngiadau mewn sefydliadau partner. Bydd hyn yn gwella tryloywder, atebolrwydd a phrosesau penderfynu ar draws y portffolio trawsnewid digidol. | | Data a Digidol, Pennaeth Profiad Digidol |
| A7 | Dylai'r Ymddiriedolaeth fabwysiadu dull cyson, sefydliad cyfan o werthuso datrysiadau digidol. Dylai hyn gynnwys adborth defnyddwyr, adolygiadau ar ôl rhoi datrysiadau ar waith, a mesurau eglur o lwyddiant. **(Paragraff 47)** | Cyflawnir gweithgareddau gwerthuso ar draws rhaglenni digidol a data trwy dracio gofynion, adrodd ar gau rhaglenni ac ymarferion gwersi a ddysgwyd.<br>I gryfhau cysondeb sefydliadol, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n datblygu fframwaith mwy safonedig ar gyfer adolygu a gwerthuso manteision ar ôl rhoi datrysiadau ar waith, gan sicrhau bod gwybodaeth am adborth defnyddwyr, y modd y cyflawnwyd deilliannau disgwyliedig, gwersi a ddysgwyd a mesurau o lwyddiant yn cael ei chasglu ac yr adroddir arni | Mawrth 2027 | Arweinydd y Portffolio Ymchwil, Data a Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | mewn modd systematig ar draws yr holl raglenni a gwasanaethau digidol. | | |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

v1.0/PHWNT-digi24-P1987